

Ask for/Gofynnwch am Tîm Derbyniadau Ysgol
Our Ref/Ein Cyf
Your Ref/Eich Cyf
Tel/Ffôn 01633 656656
Direct Dial/Rhif Union
DX
E-Mail/E-Bost school.admissions@newport.gov.uk



Education Service
Gwasanaeth Addysg

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

2019

Riant/Gwarcheidwad

Gwneud Cais am Feithrin Medi 2020

Mae'r Cyngor yn cynnig i sefydlu ysgol gynradd egin Gymraeg. Cynigir y bydd yr Ysgol newydd hon yn cael ei sefydlu o fis Medi 2020. Yn y lle cyntaf fel darpariaeth eginblanhigyn ar gyfer disgyblion Meithrin a Derbyn yn unig, yn hen Ysgol Fabano Caerleon Lodge Hill, sy'n wag ar hyn o bryd.

Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 13 Medi 2019. Er na all y Cyngor ar y cam hwn sicrhau y bydd yr ysgol yn agor fel y cynllunnir ym Medi 2020, gall rhieni fynegi hon fel ysgol ddewis wrth wneud cais. Dylech hefyd ddewis ysgolion eraill, y mae manylion amdanynt ym Mholisi Derbyn i Ysgolion 2020/21. Os bydd oedi wrth agor ysgol gynradd newydd, caiff eich ail ddewis ei ystyried yn ddewis cyntaf.

I gael rhagor o wybodaeth a diweddariadau ar y cynnig hwn ewch i wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn <http://www.newport.gov.uk/en/Schools-Education/School-reorganisation/Welsh-medium-primary-school-and-relocation-of-Pillgwenlly-Primary-School.aspx>

Am unrhyw ymholiadau neu gwestiynau, cysylltwch â'r tîm derbyniadau ysgol ar 01633 656656 neu e-bostiwch school.admissions@newport.gov.uk.

Yn gywir

Y Tîm Derbyniadau Ysgol

CAIS AM LE FEITHRIN
2020



ريسفت يف ةدعاسم وأ ةيريكلل ةعابطلل وأ ةءارقلل ليارب ةقيرط لاثمرلل ل يبس يلع ، رخآ لكش ي أ يف تامرول عملل هذه ب غرت تنك اذا
لاصتاللا ينورتكلل ل دي رطل ن 01633 656656 يلع ةسر دمرلل قيرف لوبقلل وأ ي جري ، ةفل تخم ةغل ب
school.admissions@newport.gov.uk **Arabic**

如果您希望以其他格式提供這些信息，例如盲文或大字印刷，或以不同語言解釋幫助，請致電 **01633 656656** 或通過電子郵件
聯繫學校招生團隊 **school.admissions@newport.gov.uk** **Cantonese**

Pokud byste chtěli tuto informaci v jiném formátu, například Braillovo písmo nebo velký tisk, nebo pomoc s výkladem v jiném jazyce,
obratte se na školu Přijímací tým na **01633 656656** nebo e-mailem **school.admissions@newport.gov.uk** **Czech**

If you would like this information in any other format, for example braille or large print, or help with interpretation in a different language,
please contact the School Admissions Team on **01633 656656** or by emailing **school.admissions@newport.gov.uk** **English**

Ha bármilyen más formátumban, például Braille-írással vagy nagyméretű nyomtatásban szeretné megkapni ezt az információt, vagy más
nyelven történő tolmácsolást igényel, kérjük, vegye fel a kapcsolatot a Beiratkozási csoporttal a **school.admissions@newport.gov.uk**
e-mail címen. **Hungarian**

Se desideri queste informazioni in qualsiasi altro formato, ad esempio in braille o caratteri grandi, o aiuto nell'interpretazione in una lingua
diversa, contatta il Personale di Ammissione alle Scuole allo
01633 656656 o inviando un'e-mail a **school.admissions@newport.gov.uk** **Italian**

如果您希望以其他格式提供這些信息，例如盲文或大字印刷，或以不同語言解釋幫助，請致電 **01633 656656** 或通過電子郵件
聯繫學校招生團隊，
school.admissions@newport.gov.uk **Mandarin**

Jeśli chcesz te informacje w innym formacie, np. Braille'a czy duży druk, lub pomoc przy interpretacji w innym języku, prosimy o kontakt z
Zespołem przyjeżdż do szkół na **01633 656656** lub wysyłając **school.admissions@newport.gov.uk** **Polish**

Se você gostaria de ter esta informação em qualquer outro formato, por exemplo braille ou letras grandes, ou ajuda com a interpretação
em um idioma diferente, por favor entre em contato com a Equipe de 'Admissões Escola' pelo telefone **01633 656656** ou pelo e-mail
school.admissions@newport.gov.uk **Portuguese**

Dacă doriți informații în orice alt format, de exemplu, de imprimare Braille sau mare, sau de ajutor cu interpretarea într-o altă limbă, vă
rugăm să contactați Admitere echipa de școală pe **01633 656656** sau prin email **school.admissions@newport.gov.uk** **Romanian**

Если Вам нужна эта информация в любом другом формате, например в шрифте Брайля или крупной печати,
или помощь при устном переводе на другой язык, пожалуйста, свяжитесь с школьной комиссией по телефону
01633656656 или по электронной почте **school.admissions@newport.gov.uk** **Russian**

Ak by ste chceli túto informáciu v inom formáte, napríklad Braillovo písmo alebo veľká tlač, alebo pomoc s výkladom v inom jazyku, obráťte
sa na školu Prijímacie tím na **01633 656656** alebo e-mailom **school.admissions@newport.gov.uk** **Slovak**

Si desea esta información en cualquier otro formato, por ejemplo, braille o letra grande, o ayuda con la interpretación en otro idioma,
comuníquese con el Equipo de Admisión Escolar al **01633 656656** o envíe un correo electrónico a **school.admissions@newport.gov.uk** **Spanish**

Başka bir formatta bu belgeyi almak isterseniz, örneğin farklı bir dilde yahut braille veya büyük harflerle, bu numarayı arayın **01633 656656**
veya **school.admissions@newport.gov.uk** electronic mail gönderin lütfen. **Turkish**

اگر آپ کو کسی بھی دوسرے فارمیٹ میں یہ معلومات چاہتے ہیں، تو مثال کے طور پر ایک مختلف زبان میں تشریح کے ساتھ بریل یا بڑے پرنٹ، یا مدد
01633 656656 پر یا **school.admissions @ newport.gov.uk** سے رابطہ کریں **Urdu**

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft braille neu brint bras, neu help gyda chyfieithu i iaith arall,
cyswlltwch â'r Tîm Derbyn i Yscolion drwy ffonio **01633 656656** neu e-bostio **school.admissions@newport.gov.uk** **Welsh**



Mae plant yn gymwys i ddechrau yn y feithrinfa yn y tymor ar ôl eu pen blwydd yn dair oed (os oes lleoedd ar gael). Os ganwyd eich plentyn rhwng 1/9/16 a 31/8/17, dylech wneud cais cyn 18 Medi 2019.

(Mae'r ffurflen hon ar gyfer y rhai hynny sydd am wneud cais am le meithrin yn 2020 gan gynnwys dechreuwyr cynnar)

Ydych chi wedi ystyried gwneud eich cais ar lein ar www.newport.gov.uk/schooladmissions

- Atebwch yr holl gwestiynau gan sicrhau eich bod yn llofnodi'r ffurflen yn y man a ddarperir.
- Darllenwch y Polisi Derbyn i Ysgolion 2020/2021 a'r nodiadau esboniadol atodedig cyn llenwi'r ffurflen hon.
- Am gymorth gyda'r cais hwn e-bostiwch school.admissions@newport.gov.uk neu ffoniwch 01633 656656
- Gellir gweld manylion eich ysgol ddalgyrch ar www.newport.gov.uk/schooladmissions

Adran A: Manylion y Plentyn

Enw cyfreithiol llawn: _____ **gwryw / benyw**

Enw llawn a dewis (os yn wahanol i'r uchod): _____

Dyddiad geni: _____ (rhowch **gopi** o dystysgrif geni'r plentyn)

Cyfeiriad cartref: _____

_____ Cod post: _____

Ydy eich plentyn: yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal (y gwasanaethau cymdeithasol)

yn Blentyn a oedd yn arfer Derbyn Gofal (y gwasanaethau cymdeithasol) Ddim yn berthnasol

Ar gyfer Plentyn a oedd yn arfer Derbyn Gofal cyflwynwch dystiolaeth gefnogol, fel Tystysgrif Mabwysiadu

Ar gyfer Plentyn sy'n Derbyn Gofal, nodwch y rhiant corfforaethol: _____

Enw llawn y Gweithiwr Cymdeithasol _____ Llofnod*: _____

* Fel y Gweithiwr Cymdeithasol i'r plentyn hwn sy'n Derbyn Gofal, rwy'n cadarnhau, ar ôl ystyried y cais yn llawn, mai'r ysgol dewis cyntaf a enwir yn Adran C yw'r fwyaf priodol i ddiwallu anghenion y plentyn hwn.

Adran B: Manylion yr Ymgeisydd

Enw llawn: _____ Perthynas â'r plentyn: _____

Cyfeiriad cartref (os yn wahanol i'r uchod): _____

_____ Cod post: _____

Rhif ffôn cartref: _____ Rhif ffôn symudol: _____

Cyfeiriad e-bost: _____

Nodwch os ydych yn dymuno derbyn gohebiaeth yn; Cymraeg / Saesneg / Dwyieithog

Beth yw iaith eich cartref? _____



Adran C: Dewisiadau ysgol

A yw eich dewis o ysgol yn: Cyfrwng Saesneg Cyfrwng Cymraeg Yn seiliedig ar ffydd

(Efallai y bydd angen i chi ymgeisio i awdurdod derbyn arall-gweler y canllawiau)

Nodwch eich dewis ysgol(ion) meithrin (yn ôl trefn eich dewis). Mae croeso i chi odi mwy nag un dewis.

1. _____
2. _____
3. _____

Adran Ch: Cais am fynediad cynnar

Mae'n bosibl y cynigir dechreuad cynnar i blant a gawsant eu geni rhwng 1 Medi a 31 Mawrth yn y tymor ar ôl eu pen blwydd yn dair oed, os hoffech gael eich ystyried am hyn os bydd lleoedd ar gael, ticiwch yma.

Ionawr 2020

Ydy Nac ydy

Ebrill 2020

Ydy Nac ydy

Os na fyddwch yn ticio blwch, byddwn yn cymryd nad ydych yn dymuno cael eich ystyried i ddechrau'n gynnar.

Adran Ch: Cais am fynediad cynnar

Mae'n bosibl y cynigir dechreuad cynnar i blant a gawsant eu geni rhwng 1 Medi a 31 Mawrth yn y tymor ar ôl eu pen blwydd yn dair oed, os hoffech gael eich ystyried am hyn os bydd lleoedd ar gael, ticiwch yma.

Ionawr 2020

Ydy Nac ydy

Ebrill 2020

Ydy Nac ydy

Os na fyddwch yn ticio blwch, byddwn yn cymryd nad ydych yn dymuno cael eich ystyried i ddechrau'n gynnar.

Adran D: Anghenion ychwanegol

A oes gan y plentyn Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig sy'n enwi ysgol?

Oes Nac Oes

Os oes, pa ysgol a enwir? _____

Nodwch amgylchiadau meddygol arbennig eich plentyn, os o gwbl: _____

Ystyrir y wybodaeth y gofynnwyd amdani fel data categori arbennig ac mae angen eich caniatâd arnom i brosesu'r wybodaeth hon. Sylwer, byddwn yn parhau i brosesu eich cais os na fyddwch yn caniatáu, fodd bynnag, ni fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw ddibenion eraill.

Ticiwch y blwch hwn i gydsynio

Cewch chi dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd trwy gysylltu â school.admissions@newport.gov.uk neu drwy ffonio Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656



Adran Dd: Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd

A yw'r plentyn hwn ar y gofrestr amddiffyn plant ar hyn o bryd?

Ydy Nac ydy

Os ydy, nodwch o dan pa Awdurdod Lleol _____

Ydy'r plentyn hwn yn blentyn Aelodau o Lluoedd y du neu Weision y Goron eraill (gan gynnwys diplomyddion)?

Ydy Nac ydy

Osfelly, manylwch _____

Ydy'r plentyn hwn yn un o enedigaeth luosog (e.e. gefeilliaid neu dripledi)?

Ydy Nac ydy

Adran E: Tystiolaeth gefnogi (nodwch bob datganiad perthnasol)

Hoffai Cyngor Dinas Casnewydd ofyn i chi am eich caniatâd i wirio eich cofnod Treth Gyngor fel prawf o'ch cyfeiriad gartref. Sylwch, byddwn yn parhau i brosesu eich cais os na rowch eich caniatâd, fodd bynnag, byddwn yn gofyn am dystiolaeth arall gennych. Ni fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw ddiben arall.

Cewch chi dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd trwy gysylltu â school.admissions@newport.gov.uk neu drwy ffonio Cyngor Dinas Casnewydd ar **01633 656656**.

Caiff Cyngor Dinas Casnewydd wirio fy nghofnod Treth Gyngor fel prawf o'm cyfeiriad;

Ticiwch y blwch hwn i gydsynio. Fy nghyfeirnod ar gyfer Treth y Cyngor Dinas Casnewydd yw _____

Atodaf gopi o dystysgrif geni fy mhentyn, cerdyn meddygol GIG neu basport dilys.

PEIDIWCH AG ANFON DOGFENNAU GWREIDDIOL

Mae tystiolaeth berthnasol arall ynghlwm (nodwch) _____

Adran F: Gwybodaeth bwysig i'w nodi

Ar ôl cael dyrannu lle mewn dosbarth meithrin ym mis Medi, gall plant sydd wedi eu geni rhwng 1 Medi a 31 Mawrth gael cynnig lle i gychwyn yn gynnar yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, os oes llefydd ar gael. Fel rheol, gelwir hyn yn lle i Blentyn sy'n codi'n 3 oed. Nid yw plant sydd wedi eu geni rhwng 1 Ebrill a 31 Awst yn gallu cael lle fel plentyn sy'n codi'n 3 oed.

Yn wahanol i broses blynyddoedd blaenorol, dim ond un ffenestr ymgeisio sydd am le mewn dosbarth meithrin bellach, ac ar sail y cais hwnnw y cynigir llefydd mis Medi ac i blant sy'n codi'n 3 oed.

Os bydd llefydd i blant sy'n codi'n 3 oed ar gael, cynigir lle i ddisgyblion cymwys i gychwyn yn gynnar mewn meithrinfa benodol fel a ganlyn:

- Ar 4 Rhagfyr 2019 ar gyfer llefydd Ionawr 2020 i blant sy'n codi'n 3 oed
- Ar 11 Mawrth 2020 ar gyfer llefydd Ebrill 2020 i blant sy'n codi'n 3 oed

Sicrhewch fod eich ffurflen gais wedi'i llenwi yn cael ei chyflwyno i'r:

Tîm Derbyn Ysgolion, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd. NP20 4UR erbyn **18 Medi 2019**.

Mae hyn er mwyn sicrhau y rhoddir penderfyniad ichi heb fod yn hwyrach na 4 Rhagfyr 2019.

Nodwch reswm os cafodd y cais ei gyflwyno ar ôl 18 Medi 2019



Datganiad

Rwyf wedi darllen y Wybodaeth yn y Polisi Derbyniadau i Ysgolion ac yn deall bod y cais yn dibynnu ar y telerau ac amodau a amlinellir yn y ddogfen hon ac felly nid oes sicrwydd y caiff fy mhlentyn le yn fy newis feithrinfa. Ar ben hynny, rwy'n deall nad yw mynychu dosbarth meithrin yn rhoi blaenoriaeth i fy mhlentyn am le yn y grŵp blwyddyn dosbarth derbyn mewn unrhyw ysgol benodol, gan fod angen gwneud cais ar wahan.

Cadarnhaf fod gen i gyfrifoldeb rhiant dros y disgybl a fy mod i wedi cael cytundeb gan bob person arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y disgybl i wneud y cais hwn. Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi'n gywir ac yn gyflawn, hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Arwyddwyd: _____

Enw llawn (PRINTIWCH): _____ **Dyddiad:** _____

Ceisiadau â Chymorth

Rhowch eich enw a'ch manylion cyswllt isod os ydych wedi cwblhau'r ffurflen gais hon ar ran yr ymgeisydd. Os mai dyma'r achos, mae dal angen i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad uchod i gadarnhau ei fod yn deall telerau ac amodau'r cais.

Enw: _____

Rhif cyswllt: _____

Perthynas â'r Ymgeisydd: _____

Argymhellwn ichi gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau i'ch cofnodion chi



NODIADAU CANLLAW AR GYFER Y FFURFLEN GAIS

Adran A: Manylion y plentyn

Enw

Mae'n bosibl bod eich plentyn yn cael ei adnabod wrth un enw ond bod ganddo enw cyfreithiol arall. Yr enw cyfreithiol yw'r enw a nodir ar y dystysgrif geni (oni bai'ch bod wedi newid enw'r plentyn yn gyfreithiol ers ei eni. Os felly, rhowch gopi o'r papurau newid enw cyfreithiol) Nodwch y bydd y cyngor yn cyfeirio at eich plentyn wrth ei enw cyfreithiol at ddibenion y cais hwn.

Cyfeiriad

Ar gyfer y cais hwn bydd y Cyngor yn ystyried mai cyfeiriad cartref y plentyn yw'r prif leoliad preswyllo dilys lle mae'r plentyn yn preswyllo'n barhaol gyda'i riant/gwarcheidwaid cyfreithiol ar y dyddiad cau a nodwyd, ac nid yw'n golygu'r cyfeiriad lle mae perthnasau neu eraill yn gofalu am y plentyn. Os yw plentyn yn preswyllo gyda pherthnasau neu eraill am resymau heblaw gwarcheidwaeth gyfreithiol, ni fydd y cyfeiriad hwnnw'n cael ei ystyried at ddibenion dyrannu. Ar gyfer y cais hwn bydd y cyngor yn ystyried cyfeiriad cartref y plentyn fel y lle y mae'r plentyn yn byw yn barhaol am y mwyafrif o wythnos yr ysgol ar y dyddiad cau perthnasol. Fel arfer hwn fydd yr un cyfeiriad a'r person sydd a chyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac sy'n brif ofalydd iddo/iddi ac nid yw'n golygu'r cyfeiriad lle mae perthnasau neu eraill yn gofalu am eich plentyn.

Os yw rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am y plentyn a'i fod yn treulio amser cyfartal gyda'r ddau riant yn ystod yr wythnos ysgol, ystyrir cyfeiriad y rhiant sy'n derbyn budd-dal plant fel cartref y plentyn at ddibenion dyrannu lle.

Bydd y cyngor yn cyflawni gwiriadau preswyllo trwyadl ac mae'n cadw'r hawl i ofyn am gadarnhad annibynnol o gyfeiriad y plentyn Mae'n bosibl y gofynnir i ymgeiswyr ddarparu dogfennau ychwanegol i gefnogi eu cais.

Bydd y cyngor yn defnyddio'r cyfeiriad cartref a ddarperir yn y cais i bennu'r ysgol ddalgyrch at ddibenion dyrannu lleoedd. Fodd bynnag, nodwch nad oes unrhyw warant lle, hyd yn oed yn eich ysgol ddalgyrch. Rhoddir blaenoriaeth i'r disgyblion hynny sy'n byw o fewn dalgyrch ysgol dros y plant hynny sy'n byw y tu allan i'r dalgyrch.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yn hysbysu'r tîm derbyn ysgolion am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, gan gynnwys newid cyfeiriad ar ôl cyflwyno'r cais. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei hanfon cyfeiriad cywir ac ni fydd yn effeithio ar ganlyniad y cais os yw hyn ar ôl y dyddiad cau. Dim ond os yw'r plentyn yn byw yno ar y dyddiad cau a bod tystiolaeth foddhaol yn cael ei chyflwyno i gadarnhau hyn y gellir ystyried unrhyw gyfeiriad newydd wrth benderfynu ar ganlyniad cais.

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, ac amseriad y wybodaeth a ddarperir, gall newidiadau o'r fath effeithio ar y broses ymgeisio.

Plant sy'n derbyn gofal / plant a oedd yn arfer derbyn gofal

Os yw'r cais ar gyfer plentyn sydd o dan ofal awdurdod lleol ar hyn o bryd, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol perthnasol lofnodi'r ffurflen gais i wirio dilysrwydd y cais a chadarnhau priodoldeb y dewis o ysgol feithrin.

Bydd tystiolaeth fel y Dystysgrif Mabwysiadu yn ofynnol i gadarnhau statws plant a oedd yn arfer derbyn gofal.

Adran B: Manylion yr Ymgeisydd

Nodwch fod yn rhaid i'r cais hwn gael ei wneud gan oedolyn sydd a chyfrifoldeb rhiant am y plentyn. Nid cyfrifoldeb y tim derbyn i ysgolion yw penderfynu pwy sydd a chyfrifoldeb rhiant. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r cyngor ofyn am dystiolaeth o hyn.

Os yw'r cyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu'n gyfartal, bydd y cyngor yn gofyn i rieni'r plentyn benderfynu pa riant ddylai gyflwyno'r cais. Os na all rhieni gytuno ac nad yw'r naill na'r llall wedi cael gorchymyn llys yn dweud pwy ddylai wneud y cais, bydd y cyngor yn derbyn cais gan y rhiant sy'n cael budd-dal plant ar gyfer y plentyn a enwir. Os oes gorchymyn preswylid yn bodoli sy'n effeithio ar y plentyn y gwneir y cais ar ei gyfer, rhaid cyflwyno copi o'r gorchymyn gyda'r cais.

Os yw cyfrifoldeb rhiant gan rywun heblaw mam neu dad y plentyn, bydd angen cyflwyno tystiolaeth o hyn i gefnogi'r cais. Math derbyniol o dystiolaeth at y diben hwn fyddai copi o unrhyw ddogfen gyfreithiol sy'n rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r oedolyn sy'n gwneud y cais.



Adran C: Dewisiadau ysgol

Sylwer: ni ddisgwylir i'r ysgol gynradd Gymraeg newydd agor tan fis Medi 2020, felly ni fydd modd dyrannu dechrau cynnar (lle i blant sy'n codi'n dair oed) yn yr ysgol hon.

Cyn dewis pa feithrin i wneud cais amdani dylech ddarllen y Polisi Derbyn i Ysgolion sy'n rhestru'r holl feithrinfeydd yng Nghasnewydd. Bydd angen ichi ystyried hefyd sut y bydd eich plentyn yn teithio i'r meithrin gan na fyddant yn gymwys am gludiant i'r Ysgol.

Wrth wneud cais argymhellir bod o leiaf dair ysgol o ddewis yn cael eu henwi i roi mwy o gyfle o sicrhau lle sy'n dderbyniol, gan fod galw mawr am leoedd mewn rhai ardaloedd yng Nghasnewydd. Nid yw mynegi dewis yn warant o le yn yr ysgol honno, hyd yn oed os mai hi yw'r ysgol yn y dalgylch. Fodd bynnag, mae mynegi dewis yn rhoi blaenoriaeth i'r plentyn dros blant rhieni nad ydyn nhw wedi dewis yr ysgol honno. Os na fyddwch yn dewis eich ysgol ddalgylch, caiff ymgeisydd o'r tu allan i'r dalgylch sydd yn dewis yr ysgol flaenoriaeth uwch na chi fel rhywun sydd yn byw yno.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Os ydych yn dewis cael addysg gyfrwng Cymraeg, dangoswch hyn ar y ffurflen trwy dicio'r blwch i roi gwybod i'r tîm derbyn. Sylwch: mae 3 ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd, mae ganddynt unedau meithrin a gallwch ddod o hyd iddynt ar ein gwefan: www.newport.gov.uk neu yn y polisi derbyniadau i ysgolion 2020/21. At hyn, mae cynllun i agor pedwaredd ysgol Gymraeg ym mis Medi 2020.

Nid oes rhaid i ddisgyblion a hoffai gael addysg cyfrwng Cymraeg fod yn siarad Cymraeg yn rhugl er mwyn cael eu derbyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ewch i www.newport.gov.uk/becomingbilingual am fwy o wybodaeth.

Ysgolion cymunedol

Mae'r ffurflen gais hon yn galluogi ymgeiswyr i ddewis unrhyw feithrin cymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir yng Nghasnewydd, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes unrhyw warant o le mewn meithrin.

Os yw nifer y ceisiadau i ysgol yn llai na nifer y lleoedd sydd ar gael, neu'r un nifer, bydd pob ymgeisydd yn cael ei dderbyn. Os yw nifer y ceisiadau i ysgol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff y wybodaeth mae ymgeiswyr yn ei rhoi ei defnyddio i drefnu blaenoriaeth plentyn am le, yn unol a'r meini prawf canlynol lle bo gormod o alw. Os yw Ysgol wedi'i henwi ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, mae dyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol a enwir cyn bod y meini prawf lle bo gormod o alw yn cael eu cymhwyso i'r ceisiadau a geir.

1. **Plant sy'n derbyn gofal** (plant mewn gofal cyhoeddus) a **phlant a oedd yn arfer derbyn gofal**.
2. Disgyblion **sy'n byw o fewn y dalgylch** ac sy'n gwneud cais am resymau **meddygol neu sydd** wedi eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a bod y cais wedi'i argymhell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
3. Disgyblion **sy'n byw yn y dalgylch**.
4. Disgyblion **sy'n byw y tu allan i'r dalgylch** ac sy'n gwneud cais am resymau **meddygol neu sydd** wedi'u rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a bod y cais wedi'i argymhell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch

Ar ol ystyried y categorïau uchod, neu os bydd nifer y ceisiadau yn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r nifer derbyn cyhoeddus, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr Ysgol.

Caiff pob dewis ei ystyried yn gydradd â'i gilydd a byddwch chi'n derbyn cynnig lle yn yr ysgol sydd wedi'i rancio'r uchaf ar eich rhestr ddewisiadau ac sydd â lle ar gael. Bydd unrhyw geisiadau a ddaw i law ar ol y dyddiad cau yn cael eu prosesu dim ond ar ol i leoedd gael eu dyrannu ar gyfer y ceisiadau a ddaeth i law yn brydlon, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn cynyddu'r posibilrwydd na chewch le yn eich dewis Ysgol.

Pan gaiff holl ddewisiadau'r ymgeisydd eu gwrthod, a'i fod yn preswyllo yng Nghasnewydd, bydd lle arall yn yr ysgol dalgylch yn cael ei neilltuo i'r plentyn os bydd lleoedd ar gael. Os na allwn gynnig lle naill ai yn eich ysgol dewis neu eich ysgol ddalgylch, gofynnir i chi gysylltu a'r tîm derbyniadau i ysgolion i ofyn am ddewis amgen. **Nodwch nad oes hawl apelio ar gyfer derbyniadau meithrin.**

Dylai ymgeiswyr aflwyddiannus nad ydynt yn preswyllo yng Nghasnewydd gysylltu â'u hawdurdod lleol cartref i gael ysgol arall neu gyflwyno dewisiadau ychwanegol ar gyfer ysgolion eraill yng Nghasnewydd.



Rhestrau aros ar gyfer dosbarthiadau meithrin sydd wedi'u gordanysgrifio

Yn ystod y rownd derbyniadau meithrin, bydd unrhyw blentyn nad yw wedi gallu cael lle yn cael ei ychwanegu at restr aros, a gedwir tan 30 Medi yn y flwyddyn y mae'r plentyn i fod i ddechrau mewn dosbarth meithrin. Cedwir y rhestr aros ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt wedi cael lle. Os dyrennir lle meithrin i'r plentyn, ni fydd yn gymwys ar gyfer y rhestr aros, oni bai fod ei amgylchiadau wedi newid yn sylweddol yn y fath fodd sy'n effeithio ar statws y cais, megis symud i fyw l ddaalgylch arall. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion i ofyn am gadarnhad mewn perthynas ag unrhyw newid o ran amgylchiadau.

Mae mynediad i ysgolion meithrin a gynhelir gan y cyngor a dosbarthiadau am hanner diwrnod, naill ai yn y bore neu'r prynhawn, 5 diwrnod yr wythnos. Unwaith bydd eich plentyn wedi cael cynnig lle yn y meithrin, bydd pennaeth yr ysgol berthnasol yn dyrannu lle iddynt naill ai yn y bore neu'r prynhawn. Mae'n well gan ysgolion fod disgyblion sy'n mynychu'r meithrin i gymryd yr holl sesiynau sydd ar gael iddynt. Os nad yw rhieni yn dymuno i'w plant fynychu'r pum sesiwn bob wythnos, efallai byddai'n well chwilio am le mewn lleoliad nas cynhelir sy'n gallu lletya'n hawdd am y trefniadau hyblyg hyn.

Derbyniadau i leoliadau nas cynhelir (darparwr preifat)

Os mai darparwr addysg cofrestredig, preifat yw eich dewis (gall fod yn gylch chwarae neu feithrinfa ddydd breifat), mae'n rhaid i chi wneud cais yn uniongyrchol i'r darparwr gan nad yw'r cyngor yn gyfrifol am eu trefniadau derbyn. Am wybodaeth bellach, gan gynnwys rhestr o leoliadau nas cynhelir cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar 0800 3288483 / 01633 840669, drwy anfon e-bost at family.information.service@newport.gov.uk, or by visiting www.newport.gov.uk/fis.

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr / ysgolion ffydd

Os hoffech wneud cais am le mewn meithrin sydd mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol ffydd (e.e. Ysgol Gynradd yr Eglwys Charles Williams yng Nghymru, Ysgolion Cynradd Pabyddol Sant Michael neu Sant Padrig), cysylltwch a hwy'n uniongyrchol i wneud cais Ni fydd y tim derbyn i ysgolion yn gallu ystyried unrhyw gais am yr ysgolion hyn gan mai'r corff llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn. Mae gan yr ysgolion hyn eu polisi derbyn eu hunain. Gofynnir i rieni gysylltu a'r dewis ysgol ffydd i gael manylion llawn y trefniadau derbyn. Nodwch, fodd bynnag, gan ei bod yn ofynnol i'r holl Awdurdodau Derbyn mewn ardal awdurdod lleol gydweithio tuag at set gyffredin o ddyddiadau cau a dyddiadau cynnig, y cedwir at amserlen gytunedig y cyngor ym mhob achos.

Dylai ymgeiswyr sydd am fynegi dewisiadau ychwanegol ar gyfer ysgolion cymunedol gwblhau cais Cyngor Dinas Casnewydd a'r cais a gyflenwir gan yr ysgol wirfoddol a gynorthwyr y maent yn gwneud cais iddi, gan nodi trefn eu dewisiadau yn glir yn y naill gais a'r llall. Mae protocolau rhannu gwybodaeth yn bodoli rhwng y Cyngor a'i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr i nodi plant y mae mwy nag un cais wedi'i wneud ar eu cyfer. Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr hynny nad ydynt yn nodi trefn ddewisol ac yn gofyn iddynt gadarnhau hyn cyn penderfynu ar y cais.

Derbyn i ysgol y tu allan i Gasnewydd

I wneud cais i feithrin y tu allan i Gasnewydd, dylech wneud cais yn uniongyrchol i'r awdurdod derbyn perthnasol.

Ceisiadau gan bobl sy'n byw y tu allan i Gasnewydd

Dylai rhieni plant sy'n byw mewn awdurdodau eraill sydd eisiau i'w plant fynd i feithrin yng Nghasnewydd edrych ar bolisi Cyngor Dinas Casnewydd ar dderbyn i ysgolion a gwneud cais yn unol a phroses ymgeisio Cyngor Dinas Casnewydd.



Adran D: Anghenion ychwanegol

Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Rhoddir blaenoriaeth i blant sydd a datganiad ffurfiol o Anghenion Addysgol Arbennig DIM OND os yw'r ysgol y mae'r rhiant yn gwneud cais iddi wedi'i henwi yn natganiad Cyngor Dinas Casnewydd.

Anghenion meddygol

Ar gyfer ceisiadau lle mae'r dewis wedi ei seilio ar sail feddygol, rhaid cefnogi'r cais gydag adroddiad gan ymgynghorydd meddygol, a geir gan y rhieni, yn nodi'r fantais feddygol i'r plentyn o fynd i'r dewis meithrin.

Nodwch na dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu at y diben hwn.

Adran Dd: Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na

Rhaid i geisiadau ar gyfer plant a roddir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gael eu cefnogi gan argymhelliad ysgrifenedig gan Weithiwr Cymdeithasol gan roi rhesymau dros dderbyn plentyn i ysgol benodol er mwyn cael blaenoriaeth;

Mae plant Lluoedd y DU yn symud yn aml, ac os yw'r swyddog sy'n gwasanaethu neu'n dychwelyd o wasanaethu yn cael ei benodi neu'n cael ei ryddhau o wasanaeth, gan olygu bod angen lle mewn ysgol yng Nghasnewydd, caiff y plentyn ei dderbyn i'r dewis Ysgol os yw'r canlynol yn cydfyn â'r cais:

- *Prawf swyddogol o gael ei benodi h.y. hysbysiad penodi; neu*
- *Hysbysiad yn rhyddhau o wasanaeth; a*
- *Copi o Gerdyn Adnabod y Gwasanaeth.*

Mae plant Gweision Coron y DU (gan gynnwys diplomyddion) yn symud o le i le yn aml ac os ydynt yn symud i Gasnewydd, ystyrir eu bod yn bodloni'r meini prawf preswyllo ar gyfer yr ysgol ddalgylch berthnasol os oes llythyr gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn dod gyda'r cais, yn rhestru'r canlynol:

- *dyddiad dychwelyd pendant;*
- *cadarnhad o gyfeiriad newydd os yw'n bosibl;*
- *cadarnhad o statws Gwas y Goron.*

Plant genedigaeth luosog

Os, wrth gymhwyso'r meini prawf gordanystrifio, mae'r plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o blant genedigaeth luosog, yna bydd y Cyngor yn derbyn unrhyw frodyr / chworiydd eraill o'r enedigaeth luosog.

Rhowch lungopiau ym mhob achos gan na all y cyngor warantu y caiff dogfennau gwreiddiol eu dychwelyd yn ddiogel ac na all ddarparu gwasanaeth llungopio.



Prawf preswyllo

Mae angen hwn i gefnogi pob cais. Os ydych chi'n byw yng Nghasnewydd mae'n bosibl i'r cyngor edrych ar eich cofnod treth gyngor. Ni ellir gwneud hyn ond gyda chydysyniad rhiant. **Mae'r dystiolaeth hon ond yn ddilys os yw'r oedolyn sy'n gwneud y cais am le mewn ysgol wedi'i enwi ar y cofnod Treth Gyngor.**

Dylai unrhyw ymgeiswyr sy'n anfodlon neu sy'n methu caniatáu hyn, neu'r rheiny nad ydynt yn byw yng Nghasnewydd, ddarparu llungopiau o dystiolaeth ffisegol arall er mwyn gwirio eu cyfeiriad cartref. Mewn achosion o'r fath, y mathau derbyniol o dystiolaeth ffisegol yw;

- trwydded yrru ddilys
- bil treth gyngor cyfredol (os yw'r ymgeisydd yn byw y tu allan i Gasnewydd);
- neu hysbysiad budd-dal plant / credyd treth plant cyfredol sy'n enwi'r plentyn y gwneir y cais amdano.

Prawf o ddyddiad geni

Polisi'r cyngor yw bod plant yn cael eu haddysgu yn eu grŵp blwyddyn gronolegol, oni fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. O'r herwydd, os nad yw'ch plentyn mewn ysgol feithrin gymunedol yng Nghasnewydd ar hyn o bryd, rhaid cefnogi'r cais hwn gyda llungopi o dystysgrif geni'r plenty, cerdyn meddygol GIG neu basport dilys.

Gwybodaeth bwysig i'w nodi

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y datganiad cyn llofnodi a dyddio'r ffurflen. Os cyflwynir y cais heb ei lofnodi, gallai hyn achosi oedi i'r gwaith o brosesu'ch cais, gan gynyddu'r posibilrwydd na chewch le yn eich dewis meithrin. Ymchwilir i honiadau o hawliadau twyllodrus a gall lleoedd gael eu tynnu'n ol os yw ymgeiswyr wedi rhoi gwybodaeth ffug yn wybodus er mwyn cael mantais ysgol benodol, na fyddai ganddynt hawl iddi fel arfer.

DEDDF DIOGELU DATA: Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, gan ganiatáu i'r cyngor gadw a phrosesu data personol. Ni chaiff gwybodaeth o'r fath ei efnyddio ond at y diben y'l darparwyd ar ei gyfer ac fel y caniateir gan y Ddeddf.

At ddiben prosesu ceisiadau am leoedd mewn ysgolion yng Nghasnewydd efallai y caiff y wybodaeth a rowch ar y ffurflen gais hon ei rhannu gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysg, iechyd a lles plant ysgol, gan gynnwys awdurdodau derbyn lleol eraill.

Polisi preifatrwydd: gweler ar-lein yn www.newport.gov.uk/privacynotice



Rhestr wirio ar gyfer ymgeiswyr – defnyddiwch y rhestr wirio hon cyn cyflwyno eich cais

- Allech chi gyflwyno'r cais hwn ar lein yn lle ar bapur?**
Os ydych yn gwneud eich cais cyn y dyddiad cau gallech fynd i www.newport.gov.uk/schooladmissions a'l gyflwyno ar lein. Un o fuddion hyn yw y byddwch yn gallu gweld eich penderfyniad ar lein ar y dyddiad cynnig.
- Ydych chi wedi llenwi'r ffurflen gais gywir?**
Mae'r ffurflen gais hon i rieni sy'n gwneud cais am le mewn dosbarth meithrin ym mis 2020 yn un o ysgolion cymunedol neu wirfoddol a reolir Cyngor Dinas Casnewydd yn unig. Os oes arnoch angen ffurflen gais wahanol cysylltwch â'r tîm derbyn i ysgolion ar **01633 656656**.
- Ydych chi wedi darllen a deall y nodiadau hyn cyn llenwi eich cais?** Pe bai angen unrhyw gymorth arnoch chi i lenwi'r ffurflen hon, eglurhad o'r broses derbyn ysgolion, gan gynnwys manylion am ysgol eich dalgylch, neu gopi o'r y Polisi Derbyn i Ysgolion cysylltwch â'r tîm derbyn ysgolion ar **01633 656656** neu drwy anfon e-bost at **school.admissions@newport.gov.uk**
- Oes gennych chi gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn rydych chi'n cyflwyno cais ar ei gyfer?** Os nac oes, gofynnwch i'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn i lenwi'r ffurflen gais a'i harwyddo. Os oes gennych chi gyfrifoldeb rhiant ond nid ydych yn rhiant i'r plentyn ydych chi wedi rhoi'r dystiolaeth berthnasol fel y nodwyd o dan Adran B y nodiadau canllaw?
- Os yw'r plentyn y mae'r cais yn cael ei gyflwyno ar ei gyfer o dan ofal awdurdod lleol, ydy'r gweithiwr cymdeithasol wedi arwyddo'r cais?**
- Os oedd y plentyn y mae'r cais yn cael ei gyflwyno ar ei gyfer o dan ofal awdurdod lleol yn y gorffennol, ydych chi wedi rhoi copi o'r dystysgrif mabwysiadu ynghyd â'r cais?**
- Os yw'r plentyn, y mae'r cais yn cael ei wneud ar ei gyfer, ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, ydych chi wedi darparu llythyr gan y gweithiwr cymdeithasol?**
- Ydych chi'n gwybod beth yw ysgol eich dalgylch?** Mae modd dod o hyd i fanylion am ysgol eich dalgylch ar wefan y cyngor (www.newport.gov.uk/schooladmissions)
- Ydych chi wedi ateb pob cwestiwn yn llawn a hyd y gwyddoch gan gynnwys unrhyw ffactorau meddygol perthnasol?**
- Ydych chi wedi rhoi eich caniatâd i'r tîm derbyn ysgolion gyfeirio at gofnod eich treth y cyngor?** Os nac ydw, ydych chi wedi cyflwyno tystiolaeth ffisegol dderbyniol fel y nodwyd o dan Adran Dd?
- Ydych chi wedi atodi copi o dystysgrif geni eich plentyn fel y nodwyd o dan Adran Dd?**
- Ydych chi wedi arwyddo'r ffurflen gais?**
- A fydd eich cais yn cael ei dderbyn gan y tîm derbyn ysgolion cyn y dyddiad cau sef 18 Medi 2019?** Noder mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau mai'r tîm derbyn ysgolion – NID eich dewis meithrin, sy'n derbyn eich cais sydd wedi'i llenwi yn ddiogel ac yn amserol. Os ydych chi'n anfon eich cais drwy'r post rydym yn argymhell eich bod yn anfon eich ffurflen gan ddefnyddio dosbarthiad a gofnodwyd. Caiff unrhyw geisiadau sy'n cael eu derbyn gan y tîm derbyn ysgolion ar ôl y dyddiad cau sef 18 Medi 2019 neu geisiadau sy'n anghyflawn (h.y. heb dystiolaeth cyfeiriad) ar y dyddiad cau eu hystyried fel ceisiadau hwyr ac efallai y bydd hyn yn cynyddu'r posibilrwydd i chi beidio â derbyn le yn eich dewis ysgol.

